<table>
<tr><td colspan="3">CYFARFOD<br><br>PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC</td></tr>
<tr><td colspan="2">DYDDIAD</td><td>5 Mehefin, 2008</td></tr>
<tr><td colspan="2">TEITL</td><td>Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir</td></tr>
<tr><td rowspan="2">PWRPAS</td><td>1. Pam fod yr adroddiad gerbron?</td><td>I adnabod y camau nesaf er mwyn ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir</td></tr>
<tr><td>2. Beth yw'r mater i'w graffu?</td><td>Y camau nesaf yn y broses o ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir</td></tr>
<tr><td colspan="2">ARGYMHELLIAD</td><td>Derbyn yr Argymhellion</td></tr>
<tr><td colspan="2">LLWYBR ADRODD<br>Beth yw'r cam nesaf?</td><td>Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 19 Mehefin, 2008</td></tr>
<tr><td colspan="2">AWDUR</td><td>Cyfarwyddwr Strategol Datblygu</td></tr>
<tr><td colspan="2">ARWEINYDD PORTFFOLIO</td><td></td></tr>
</table>

## 1. CEFNDIR

1.1. Penderfynodd y Cyngor yn ei gyfarfod ar y 13 Rhagfyr, 2007 y dylid:

"Cymeradwyo cyfnod o ymgynghori ar y ddogfen drafft *Ad-drefnu Ysgolion Cynradd er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd*";

"Cymeradwyo'r rhaglen ymgynghori fel y'i cyflwynir yn y "Cynllun Ymgynghori Diwygiedig" yn yr Atodiad";

"Cefnogi'r bwriad i ymgymryd ag asesiad ieithyddol a chymdeithasol o weithredu cynigion y ddogfen ynghyd ag asesiad cyflawn o fanteision ac anfanteision ffederaleiddio, a dwyn adroddiad pellach i'r Cyngor yn 2008".

1.2. Cafwyd cymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a gyfarfu ar 25 Hydref, 2007 a Bwrdd y Cyngor ar gyfarfu ar 20 Tachwedd, 2007 i'r bwriad o ymgynghori.

## 2. CYD-DESTUN

2.1. Dyma'r prif resymau dros ad-drefnu ysgolion cynradd Gwynedd:

- lleihad o dros 10% wedi bod mewn nifer plant oed cynradd (blwyddyn Derbyn i flwyddyn 6) rhwng 1996 a 2006 (o 9939 i 8912);
- nifer plant am leihau o tua 9.2% ymhellach rhwng 2006 a 2016 (o 8,912 i tua 8,090);

- problemau recriwtio penaethiaid yn cynyddu, gyda 16 o ysgolion bellach gyda phennaeth mewn gofal;
- pwysau gwaith ar brifathrawon yn cynyddu, gyda chymaint o brifathrawon yn gorfod cymryd cyfrifoldeb dros ddosbarth ac arwain ysgol;
- cyflwr adeiladau ysgolion cynradd y Sir yn gwaethygu, gyda buddsoddiad o dros £32m ei angen i'w huwchraddio a'u gwneud yn addas;
- maint dosbarthiadau yn amrywio yn sylweddol, a chymhareb athro disgybl, gyda rhai o'r ysgolion mwyaf gyda dosbarthiadau yn agos i 30 o ddisgyblion gan roi pwysau annerbyniol ar yr athro a pheryglu safonau cyflawniad y plant;
- llefydd gweigion ar gynnydd ar draws y Sir, a hynny ar gost o £850,000 ar hyn o bryd;
- mwy a mwy o adnoddau o gyllideb ysgolion cynradd y Sir yn gorfod mynd ar gynnal strwythur 106 o ysgolion ar draul buddsoddiad yn addysg plant y Sir;
- y wasgfa ariannol ar y Cyngor yn cynyddu, gan olygu bod pob gwasanaeth - yn cynnwys Ysgolion - yn gorfod gwneud arbedion ac wynebu toriadau.

2.2. Penderfynwyd wynebu'r her a ddaw yn sgil y ffactorau uchod. Paratowyd Strategaeth Drafft i bwrpas ymgynghori yn cynnig trefniant newydd ar gyfer addysg cynradd y Sir. Yn syml, roedd pedair elfen yn perthyn i'r Strategaeth Drafft, sef:

- cau rhai ysgolion;
- dod a nifer o ysgolion at ei gilydd mewn trefn ffurfiol o gydweithio – dyma'r model ffederal;
- codi ysgolion newydd fyddai'n ysgolion ardal;
- gwarchod rhai ysgolion rhag unrhyw newid – yn bennaf yr ysgolion mwyaf.

## 3. YMGYNGHORI

3.1. Cytunwyd gan y Cyngor y dylid cynnal cyfnod o ymgynghori cyffredinol ar y cynllun drafft siriol yn cychwyn yn Ionawr 2008 ac yn gorffen ar 31 Mawrth, 2008. Nodwyd y byddai gwahoddiad i gyrff ac unigolion sydd â diddordeb gynnig sylwadau ysgrifenedig.

3.2. Cytunwyd yn ogystal drwy'r cynllun ymgynghori y dylid rhoi cyfle i gynrychiolaeth o gyrff llywodraethol ysgolion Categori A (sef yr ysgolion hynny y bwriedir eu cau fel rhan gyntaf y Strategaeth) wahodd y Cyngor i drafod dyfodol eu hysgolion yn anffurfiol.

3.3. Amlygwyd rhai materion yn ystod y broses ymgynghori:

- y gwrthwynebiad cryf i'r drefn ffederaleiddio;
- yr anhawster o gael unrhyw gonsensws dros gau ysgol;
- ymateb cymysg i sefydlu ysgolion ardal.

3.4. Mae dadansoddiad o'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y broses ymgynghori wedi'i baratoi gan ymgynghorydd annibynnol.

## 4. YR YMATEB

4.1. Ar sail yr uchod, mae angen ystyried ffyrdd newydd o weithredu er mwyn creu cyfundrefn addysg gynradd gynaladwy i Wynedd, yn enwedig wrth geisio cael trefn gydweithio ffurfiol ymysg ysgolion.

4.2. Mae gofyn ail-ymweld gyda'r **model ffederal**. Y bwriad gwreiddiol oedd sefydlu model fyddai'n dod a nifer o ysgolion bach at ei gilydd yn un ysgol o dan Bennaeth Arweiniol ac un corff llywodraethol, gan sicrhau dyfodol rhai safleoedd na fyddai fel arall yn hyfyw, hyrwyddo cydweithio a chyd-gynllunio rhwng ysgolion, a meithrin arbenigedd mewn pynciau a meysydd cwricwlaidd penodol. Bydd gofyn ail-ystyried felly'r math o drefniadau cydweithio ffurfiol y gallwn eu datblygu mewn dalgylchoedd penodol. Gall sefyllfa godi mewn rhai o ddalgylchoedd y Sir lle bydd hi'n bosibl treialu model o gydweithio ffurfiol rhwng ysgolion. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n bosibl sefydlu trefniadau lleol i wneud gwaith rhagbaratoi manwl ar fodel posibl.

4.3. Bydd angen asesu ymhellach y rhestr o **ysgolion i'w cau**. Bydd y gwaith yma yn digwydd yng nghyd-destun yr angen i greu strwythur newydd o ysgolion cynradd fydd yn cynnwys ysgolion ardal ac ysgolion a all gydweithio'n ffurfiol. Nid oes unrhyw ffordd y gallwn fel Awdurdod gynnal 106 o safleoedd yn wyneb rhai o'r ffactorau a restrwyd yn para. 2.1, yn enwedig y gostyngiad yn niferoedd plant, a bydd yn rhaid symud ymlaen i weithredu ar gau rhai ysgolion yn Medi 2009, 2010 a 2011.

4.4. Fel egwyddor gyffredinol, bwriedir rhoi blaenoriaeth i gyfeirio unrhyw arbedion refeniw a wneir yn sgil cau ysgolion tuag at leihau maint dosbarthiadau yn yr ysgolion lle mae hynny yn amlwg yn broblem.

4.5. Fel y nodwyd uchod, cymysg oedd yr ymateb i'r bwriad o sefydlu **ysgolion ardal**. Er hynny, does dim dwywaith nad yw cyflwr rhai o ysgolion y Sir yn golygu bod yn rhaid codi ysgolion newydd - gyda'r cyfle i'r ysgolion hynny ddod yn ysgolion ardal gan hefyd ddarparu adnoddau cymunedol newydd. Mae gwaith pellach i'w wneud i geisio cael mwy o gefnogaeth i gyfeiriad o'r fath - ac mae cyfle i gynnal rhagor o drafodaethau a gwneud gwaith rhagbaratoi mewn ambell dalgylch er mwyn datblygu modelau posibl o ysgolion ardal – yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r awydd ar gyfer datblygu ysgolion ardal wed dod i'r amlwg.

## 5. GWEITHGOR

5.1. Fel yr amlinellir uchod, mae meysydd penodol o waith angen sylw dros y misoedd nesaf. Gofynnwn am gefnogaeth i sefydlu Gweithgor er mwyn ymgymryd â'r tasgau isod:

- ystyried trefniant newydd er sicrhau cydweithio ffurfiol rhwng ysgolion;
- paratoi rhestr o ysgolion i'w cau, yn unol â meini prawf clir a chadarn;
- cyflwyno cynigion ar gyfer datblygu ysgolion ardal mewn ambell dalgylch.

5.2. Bydd gofyn gwneud hyn ar sail yr ymchwil a'r dystiolaeth a gasglwyd wrth roi'r strategaeth drafft at ei gilydd, ynghyd a chasgliadau'r adroddiadau canlynol:

- asesiad ardrawiad ieithyddol a chymdeithasol ar egwyddorion a chynigion y strategaeth drafft. Mae'r asesiad wedi'i baratoi gan Ganolfan Ymchwil Busnes, Canolfan Reolaethol Prifysgol Bangor;

- dadansoddiad o'r sylwadau a wnaed yn sgil y broses ymgynghori ar y strategaeth drafft gan ymgynghorydd annibynnol;
- adroddiad ar Dueddiadau Demograffaidd, a gomisiynwyd er sicrhau nad oedd amryfusedd yn y wybodaeth am y newidiadau yn niferoedd plant ar draws y Sir, a'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol;
- casgliad byrdymor y gweithgor o benaethiaid a swyddogion a gyfarfu i drafod manteision ac anfanteision y drefn ffederaleiddio a awgrymid a'u hymrwymiad i barhau fel aelodau o'r gweithgor i gyflawni gwaith pellach.

5.3. Yn amlwg, bydd gofyn i'r Gweithgor roi sylw manwl i'r adroddiadau uchod cyn ymgymryd â'r tasgau unigol.

5.4. O ran aelodaeth y Gweithgor, awgrymwn y canlynol:

- 4 Aelod Etholedig o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc;
- Arweinydd Portffolio Ysgolion, Uwch Arweinydd Datblygu, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol Plant a Phobl Ifanc;
- 3 Prifathro – un o ysgol fach, un o ysgol canolig ei maint, ac un o ysgol fawr;
- Swyddogion perthnasol.

5.5. Bydd gofyn i'r Gweithgor adrodd ar y cynnydd ar y meysydd gwaith hyn i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn ym mis Tachwedd 2008.

## 6. DATBLYGIADAU DIWEDDAR

6.1. Yn wyneb pwysau o Wynedd, mae'r Cynulliad yn y broses o baratoi canllawiau newydd er mwyn galluogi ysgolion i gydweithio'n ffurfiol. Disgwylir i'r canllawiau hyn gael eu cyhoeddi o fewn yr wythnosau nesaf.

6.2. Yn ogystal, mae Cyngor Gwynedd - gyda chymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - wedi sefydlu Gweithgor er mwyn cynnal trafodaeth ar lefel Genedlaethol ar ddyfodol ysgolion cynradd. Mae'r Gweithgor yn cynnwys cynrychiolaeth o Awdurdodau Lleol gwledig eu natur, yn cynnwys Powys, Caerfyrddin, Penfro a Cheredigion. Mae cyfarfod cyntaf y Gweithgor - dan Gadeiryddiaeth Gwynedd – wedi ei drefnu ar gyfer 17 Gorffennaf, 2008.

## 7. DYFODOL YSGOLION PENODOL

7.1. Nodwyd bod cyfarfodydd anffurfiol wedi eu cynnal gydag ysgolion Categori A yn ystod Ionawr – Mawrth 2008.

7.2. Mae sefyllfa dwy ysgol yn fregus iawn, ac yn creu pryder. Cyflwynir manylion pellach isod:

### i. Ysgol Rhydyclafdy

Mae 4 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd, gyda dau ohonynt ym mlwyddyn 6 ac felly ar fin gadael yr ysgol. Derbyniwyd gwybodaeth gan Lywodraethwyr yr ysgol mewn cyfarfod diweddar nad oes disgwyl y bydd yna ddisgyblion yn yr ysgol erbyn mis Medi, 2008. Mae Llywodraethwyr yr ysgol wedi ymrwymo i gadarnhau'r sefyllfa.

### ii. Ysgol Croesor

Nododd yr ysgol ym mis Medi 2007 eu bod yn rhagweld y byddai 9 disgybl yn yr ysgol ym Medi 2008. Ers hynny, mae rhai plant wedi gadael, ac o ganlyniad roedd 5 o blant yn mynychu'r ysgol erbyn Ionawr 2008. Mae'r ysgol bellach yn awgrymu ei bod yn disgwyl y bydd 2 disgybl yn yr ysgol ym Medi, 2008. Yn y cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr anogwyd yr ysgol i ddatblygu ymhellach y cydweithio rhyngddi ac Ysgol y Garreg, Llanfrothen. Byddai trefnu i'r plant drosglwyddo i Ysgol y Garreg yn gam naturiol o safbwynt addysgol ac o safbwynt trefniadaeth addysg yn yr ardal.

7.3. Mae'n debyg y byddai cau'r ddwy ysgol uchod yn creu arbedion o oddeutu £208K (blwyddyn gyfan). Y bwriad fyddai rhoi blaenoriaeth o ran y defnydd o'r arbedion yma i leihau maint dosbarthiadau mewn rhai o ysgolion lle mae hynny yn amlwg yn broblem.

7.4. Gofynnwn i'r Pwyllgor Craffu gefnogi'r bwriad i ymgynghori'n statudol ar gau'r ddwy ysgol dan sylw.

7.5. Byddwn yn adrodd ar y mater yma i'r Cyngor Llawn ar 19 Mehefin, 2008.

## 8. ARGYMHELLION

8.1. I sefydlu Gweithgor er mwyn ystyried yr ymateb i'r cyfnod ymgynghori ar y Strategaeth Drafft, yr adroddiadau sydd wedi eu comisiynu, ac i ymgymryd â'r tasgau isod:

- ystyried trefniant newydd er sicrhau cydweithio ffurfiol rhwng ysgolion;
- i baratoi rhestr o ysgolion i'w cau, yn unol â meini prawf clir a chadarn;
- cyflwyno cynigion ar gyfer datblygu ysgolion ardal mewn ambell dalgylch.

8.2. I gefnogi'r bwriad o gynnal cyfnod o ymgynghori statudol ar y bwriad o gau Ysgol Rhydyclafdy ac Ysgol Croesor.

## 9. PAPURAU CEFNDIROL

- Adroddiad Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 13 Rhagfyr, 2007;
- Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd: Dogfen Ymgynghorol Ionawr 2008.